CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
THE LEARNED SOCIETY OF WALES

# Cynnig Ymchwil:

# Deall Anghenion Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar ac Ymchwilwyr Canol Gyrfa ar draws Cymru

**Crynodeb o'r Prosiect:** Cynnal arolwg cenedlaethol cynhwysfawr yng Nghymru, i archwilio sut mae ymchwilwyr yn disgrifio eu hunain ar gamau cynnar a chanol o'u gyrfa, yr heriau maen nhw'n eu hwynebu a'r mathau o gymorth maen nhw'n eu hangen, o'i gymharu â'r gefnogaeth maen nhw'n cael mynediad iddo ar hyn o bryd a'r ddarpariaeth ehangach sydd ar gael iddynt. Bydd canfyddiadau'r prosiect yn helpu i lunio cymorth wedi'i dargedu (yn enwedig ar gyfer Ymchwilwyr Canol Gyrfa), dod o hyd i feysydd y gellid gweithio gyda'i gilydd arnynt ar draws tirwedd ymchwil Cymru, a darganfod sut mae ymchwilwyr yn gweld eu gyrfaoedd yn y dyfodol, gan gynnwys p'un a ydynt yn bwriadu aros mewn rolau academaidd neu barhau i weithio ym maes ymchwil yng Nghymru neu mewn rhywle arall.

**Math o gontract:** Llawrydd

**Ffi:** Hyd at £16,000 (yn cynnwys TAW os yn gymwys.) Mae cyllideb ar wahân o £1000 ar gael ar gyfer treuliau cysylltiedig e.e. costau gweithdai.

**Dyddiad dechrau'r prosiect:** Bydd y prosiect yn cael ei ddyfarnu yn ystod yr wythnos 8 Mehefin 2026.

**Dyddiad cwblhau:** Dydd Gwener, 8 Ionawr 2027

**Hyd y contract ac ymrwymiad amser:** Disgwylir y bydd angen ymrwymiad amser o leiaf 0.5 FTE dros gyfnod o 7 mis. Fodd bynnag, mae'r ffi ar sail cwblhau'r prosiect (gweler adran 4), nid ar sail yr oriau sydd yn cael eu gweithio, felly gall yr ymgeisydd ddewis yr oriau a'r patrwm gwaith eu hunain (ond bydd yn rhaid iddynt fynychu cyfarfodydd diweddaru bob pythefnos- gweler adran 6).

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau:** 27 Mai 2026

## Cais Prosiect

### 1. Cefndir a Rhesymeg

Mae ecosystem ymchwil Cymru yn amrywiol, ac yn cynnwys ystod eang o ddisgyblaethau, sefydliadau a llwybrau gyrfa ymchwil, o fewn prifysgolion, sefydliadau cyhoeddus a phreifat, a lleoliadau'r trydydd sector a'r gymuned. Er bod llawer o sylw

wedi cael ei roi i Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar, mae anghenion a rolau penodol Ymchwilwyr Canol Gyrfa yn parhau i gael eu tan-archwilio (gan gynnwys hefyd eu hanghenion a'u rolau, sy'n wahanol i 'Ymchwilwyr Sefydledig' uwch) [1]. Mae Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar ac Ymchwilwyr Canol Gyrfa ill dau yn hanfodol i gynaliadwyedd a datblygiad ymchwil yng Nghymru.

Bydd y prosiect hwn, sydd wedi cael ei gomisiynu gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru, yn cynnal arolwg cenedlaethol cynhwysfawr yng Nghymru i archwilio sut mae ymchwilwyr yn disgrifio eu hunain ar gamau cynnar a chanol o'u gyrfa, yr heriau maen nhw'n eu hwynebu, a'r mathau o gymorth maen nhw'n eu defnyddio ar hyn o bryd, gyda'r nod o lunio cymorth wedi'i dargedu (yn enwedig ar gyfer Ymchwilwyr Canol Gyrfa), a dod o hyd i feysydd y gellid gweithio gyda'i gilydd arnynt ar draws tirwedd ymchwil Cymru, er budd cymunedau ymchwilwyr ac ymchwil yng Nghymru a thu hwnt.

## 2. Nodau ac Amcanion

### Prif Nod:

Asesu a deall profiadau, rolau ac anghenion Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar ac Ymchwilwyr Canol Gyrfa ar draws Cymru, er mwyn dylunio ymyriadau wedi'u targedu trwy Raglen Datblygu Ymchwilwyr Cymdeithas Ddysgedig Cymru, a chefnogi trafodaethau ac ymgyrchoedd ehangach sy'n ceisio hyrwyddo ecosystem ymchwil iach, gynhwysol a chynaliadwy er budd Cymru yn ehangach.

---

[1] Mae diffiniadau Ymchwilwyr Canol Gyrfa (MCRau) yn anghyson, heb gytundeb clir ar faint o flynyddoedd ar ôl PhD neu o fewn rôl sy'n gymwys. Er bod rhai diffiniadau yn pwysleisio lefel o brofiad-fel hanes o gyhoeddiadau, enw da, annibyniaeth ym maes ymchwil, a'ch bod chi'n dangos sgiliau arweinyddiaeth mewn ymchwil-mae eraill yn rhoi llai o bwys ar y nodweddion hyn. Fel arfer, mae Ymchwilwyr Canol Gyrfa wedi'u lleoli rhwng y cam ôl-ddoethuriaeth a dod yn athro, ond mae'r ffiniau hyn yn gallu newid. Thema gyffredin yw newid: Mae Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar yn aml yn datblygu sgiliau arweinyddiaeth mewn ymchwil ac/neu'n dod yn fwy annibynnol. Nid oes consensws ar y derminoleg chwaith, gyda rhai yn osgoi "canol gyrfa" oherwydd ystyron amwys, ac yn dewis opsiynau amgen fel "ymchwilwyr sy'n datblygu" neu "ymchwilwyr sefydledig".
I'r gwrthwyneb, mae diffiniadau fel y rhai a ddefnyddir gan y Sefydliad Wellcome ar gyfer Ymchwilwyr Gyrfa Hwyr yn fwy clir ac yn fwy sefydlog, ac yn cyfeirio fel arfer at unigolion sydd â hanes o arwain ymchwil yn rhyngwladol, hanes sylweddol o gyllid, ac arweinyddiaeth sefydlog yn eu maes. O'i gymharu â hyn, mae diffiniadau Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar mewn cyfnod o newid ac yn llai safonol, ac yn adlewyrchu cam sydd yn symud mwy tuag at - yn hytrach na chyrraedd-yr uwch statws a'r sefydlogrwydd hwnnw.

Yn ogystal â'r arolwg, bydd y prosiect yn cynnwys dadansoddiad strwythuredig o'r bylchau mewn perthynas â'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer datblygu ymchwilwyr ar draws Cymru a'r ecosystem ymchwil ehangach yn y DU. Bydd hyn yn sicrhau y gellir dehongli canfyddiadau ar anghenion a phrofiadau ymchwilwyr yng nghyd-destun y cymorth sydd eisoes ar gael i Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar ac Ymchwilwyr Canol Gyrfa.

**Amcanion:**

1. Archwilio sut mae ymchwilwyr ar draws Cymru yn diffinio ac yn disgrifio eu rolau fel Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar ac Ymchwilwyr Canol Gyrfa.
2. Nodi'r heriau sy'n wynebu Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar ac Ymchwilwyr Canol Gyrfa wrth ddatblygu eu gyrfaoedd.
3. Nodi bylchau canfyddedig mewn cymorth ar draws sefydliadau a disgyblaethau, ac ymhlith ymchwilwyr annibynnol.
4. Asesu argaeledd, hygyrchedd ac effeithiolrwydd y cyfleoedd cymorth a datblygu sydd ar gael ar hyn o bryd
5. Casglu mewnwelediadau ar y mathau o adnoddau ac ymyriadau y gellid eu cynnwys yn Rhaglen Datblygu Ymchwilwyr Cymdeithas Ddysgedig Cymru ac y gellid eu rhannu er budd cymunedau ymchwil ac eraill yng Nghymru yn ehangach.
6. Cyflwyno argymhellion ymarferol i Gymdeithas Ddysgedig Cymru a rhanddeiliaid allweddol i weithio gyda'i gilydd i wella diwylliant ymchwil, a darparu cyfleoedd datblygu gwell ar gyfer Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar ac Ymchwilwyr Canol Gyrfa.

### 3. Strwythur Arfaethedig y Prosiect Ymchwil

Bydd y canlynol yn cael eu trafod a'u haddasu gyda'r deiliad swydd a benodir, ond bydd angen cyflwyno diweddariad ysgrifenedig i arweinydd Cymdeithas Ddysgedig Cymru ar ddiwedd pob cam. Bydd amserlenni yn cael eu trafod a'u cadarnhau gyda'r deiliad swydd llwyddiannus hefyd.

Cam 1: Dylunio/adeiladu'r Arolwg a'r Sampl, Treialu a Chael Cymeradwyaeth Foesegol

Cam 2: Cynnal dadansoddiad o'r bylchau yn y ddarpariaeth bresennol ar gyfer Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar ac Ymchwilwyr Canol Gyrfa ar draws Cymru a'r DU ehangach. Bydd CDdC yn darparu rhestr ddangosol o gyfleoedd hysbys i chi, i

helpu i osod cwmpas cychwynnol y gwaith. Bydd deiliad y swydd yn cynnal adolygiad desg systematig ac yn mapio'r ddarpariaeth.

Cam 3: Dosbarthu'r Arolwg i ymchwilwyr o fewn prifysgolion, sefydliadau cyhoeddus a phreifat, a lleoliadau'r trydydd sector/gymuned. Bydd Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn darparu rhestr o randdeiliaid, gan gynnwys ei Rhwydwaith Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar ei hun a Rhaglen Arweinyddiaeth Ymchwil Prifysgolion Cymru. Fodd bynnag, bydd deiliad y swydd yn nodi ac yn creu cysylltiadau pellach i sicrhau bod y sampl o'r arolwg mor gynrychioladol â phosibl.

Cam 3: Dadansoddi Data

Cam 4: Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Dilysu

Cam 5: Adrodd a Llunio Argymhellion

## 4. Canlyniadau a Chyflawniadau

Bydd y prosiect ymchwil yn darparu Staff Datblygu Ymchwilwyr Cymdeithas Ddysgedig Cymru gyda'r canlynol:

- **Dealltwriaeth gliriach** o sut mae ymchwilwyr ar wahanol gamau yn disgrifio eu rolau ac yn llywio eu gyrfaoedd yng Nghymru, a sut y gall eu profiadau amrywio ar draws grwpiau demograffig.
- **Argymhellion ar sail tystiolaeth yn diffinio ac** yn amlinellu **ffiniau statws Ymchwilwyr Canol Gyrfa**, gan gynnwys meini prawf ymarferol posibl i gategoreiddio ymchwilwyr ar draws camau gyrfa.
- **Sylfaen dystiolaeth** ar gyfer anghenion unigryw Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar ac Ymchwilwyr Canol Gyrfa i lywio cynnig Datblygu Ymchwilwyr Cymdeithas Ddysgedig Cymru, ac i gyfrannu at drafodaethau cenedlaethol a rhyngwladol perthnasol ar ecosystem ymchwil gynaliadwy.
- Adroddiad ar y dadansoddiad o'r bylchau sy'n mapio'r ddarpariaeth bresennol ac sy'n **nodi'r bylchau mewn cymorth i ymchwilwyr yng Nghymru, ochr yn ochr â** chyfleoedd i sefydliadau a phartneriaid cenedlaethol weithio gyda'i gilydd, ar sail cymharu canlyniadau'r arolwg.
- Y posibilrwydd **o gryfhau ymgysylltiad** rhwng Cymdeithas Ddysgedig Cymru a'r gymuned ymchwil ehangach ar draws Cymru.
- **Rhannu mewnwelediadau am ddatblygiad gyrfa a diwylliant ymchwil** gyda rhanddeiliaid perthnasol yng Nghymru a'r DU.

Yn seiliedig ar y uchod, bydd disgwyl i'r deiliad swydd gynhyrchu **adroddiad terfynol cynhwysfawr gyda phrif ganfyddiadau, pwyntiau dysgu ac argymhellion ymarferol**, a datblygu **briff polisi a chrynodeb ar ffurf ffeithlun** i'w lledaenu'n ehangach.

**5. Tîm y Prosiect**

- **Sefydliad Arweiniol**: Cymdeithas Ddysgedig Cymru
- **Arweinydd y Prosiect**: Ymchwilydd Annibynnol / Llawrydd
- **Staff Cymdeithas Ddysgedig Cymru sy'n comisiynu'r prosiect:** Tîm Datblygu Ymchwilwyr Cymdeithas Ddysgedig Cymru, dan arweiniad Barbara Ibinarriaga Soltero, Rheolwr Rhaglen
- **Rhanddeiliaid**: Grŵp Cynghori ar Ddatblygu Ymchwilwyr Cymdeithas Ddysgedig Cymru, Cymrodyr Cymdeithas Ddysgedig Cymru, Medr, Menter Athrawon Prifysgol Lleiafrifoedd Ethnig Cymreig (WEMPI), a Rhwydwaith Arloesi Cymru (WIN).

**6. Cyllideb a lleoliad**

Mae hyd at £16,000 (yn cynnwys TAW) ar gael ar gyfer y prosiect.

Gellir cyflawni'r rôl yn bennaf o bell. Fodd bynnag, bydd disgwyl i ddeiliad y swydd fynychu cyfarfodydd rheolaidd wyneb yn wyneb (bob tua 4-6 wythnos), yn swyddfeydd Cymdeithas Ddysgedig Cymru yng Nghaerdydd (ni fydd Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn talu am unrhyw dreuliau sy'n gysylltiedig â hyn).

Mae cyllideb benodol o £1,000 ar gael i dalu am weithgareddau wyneb yn wyneb ychwanegol a allai fod eu hangen e.e. i fynychu Colocwiwm Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar blynyddol Cymdeithas Ddysgedig Cymru (Aberystwyth, 29 a 30 Mehefin 2026), ac i dalu am unrhyw gostau eraill i gefnogi'r gwaith yn uniongyrchol. Gellir ceisio cyllid ychwanegol os cyflwynir achos cryf.

Disgwylir i ddeiliad y swydd ddefnyddio eu hoffer TG eu hunain.

**7. Sut i wneud cais**

Dylech anfon CV a llythyr eglurhaol (uchafswm o 2 dudalen) i applications@lsw.wales.ac.uk erbyn **dydd Mercher 27 Mai**. Rydym yn bwriadu cynnal cyfweliadau ar-lein ar ddydd Gwener 5 Mehefin.

Dylid cynnwys y canlynol yn eich llythyr eglurhaol:

- Disgrifiwch eich arbenigedd a'ch profiad sy'n berthnasol i'r pwnc ymchwil, gan gynnwys manylion o unrhyw gyhoeddiadau perthnasol neu waith arall.
- Cyflwynwch amserlen ddangosol ar gyfer yr ymchwil, gan gynnwys dyddiad dechrau a chwblhau'r prosiect, o **ddydd Gwener 8 Ionawr 2027**.
- Eich ffi (yn seiliedig ar eich amser eich hun).
- Nodwch yn gryno unrhyw risgiau a ragwelir i gwblhau'r prosiect yn llwyddiannus, ac unrhyw fesurau lliniaru.
- Dylech gynnwys datganiad byr hefyd yn amlinellu sut rydych chi'n cyfeirio at foeseg ymchwil a diogelu data, gan gynnwys sut rydych chi'n sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau perthnasol (e.e. GDPR) wrth weithio'n annibynnol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y cyfle hwn, cysylltwch â'r Rheolwr Cyflogi, Dr Barbara Ibinarriaga Soltero (bibinarriagasoltero@lsw.wales.ac.uk).